Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Gemau'r Gymanwlad Birmingham

Hydref 2019

## Y cefndir

### Y Bil

#### Trosolwg

**1.** Cafodd Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 Mehefin 2019 ac fe'i noddir gan yr Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**2.** Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn nodi:

> "This Bill provides for a number of operational measures required to support the delivery of the 2022 Commonwealth Games to be held predominantly in Birmingham (and venues across the West Midlands). It provides United Kingdom ministers and the Organising Committee with the powers necessary to ensure delivery of aspects of the Games relating to funding of the Organising Committee, provisions regarding association with the Games, ticket touting, advertising and trading and transport."[1]

[1] Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham: Nodiadau Esboniadol, Mehefin 2019

**3.** Mae Atodiad A i'r nodiadau esboniadol yn nodi asesiad Llywodraeth y DU o rychwant tiriogaethol a'r drefn o ran cymhwyso'r Bil yn y Deyrnas Unedig.[2]

**4.** At hynny, mae'r nodiadau esboniadol yn nodi:

> "We note that aspects of advertising and trade are reserved in Schedule 5 to the Scotland Act 1998 and Schedule 7A to the Government of Wales Act 2006, but consider the main purpose of the provisions is to host a successful sports event, in particular, to protect the commercial rights of sponsors and provide a good Games experience for spectators."[3]

**5.** Cwblhaodd y Bil y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Gorffennaf 2019.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**6.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**7.** Ar 19 Mehefin 2019, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r Bil.[4]

**8.** Ar 25 Mehefin 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i'r Pwyllgor hwn a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Pennodd y Pwyllgor Busnes 3 Hydref 2019 fel terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad.[5]

**9.** Mae paragraffau 7 i 10 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad arnynt, sef cymal 9 ac Atodlen 1.[6]

---

[2] Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham: Nodiadau Esboniadol, Atodiad A, Mehefin 2019
[3] Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham: Nodiadau Esboniadol, Atodiad A, Mehefin 2019
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham, Mehefin 2019
[5] Y Pwyllgor Busnes, Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham., Mehefin 2019
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham, Mehefin 2019

**10.** Mae cymalau 9(1) i (3) yn nodi ei bod yn drosedd i berson werthu tocyn Gemau, cynnig gwerthu tocyn Gemau, neu roi tocyn Gemau ar ddangos i'w werthu heb awdurdodiad y Pwyllgor Trefnu. Cyflawnir trosedd os gwneir hynny mewn man cyhoeddus, wrth gynnal busnes (gan gynnwys gwerthu am y pris ar wyneb y tocyn neu bris is), neu os mai'r bwriad yw i unrhyw berson wneud elw o werthu'r tocyn.

**11.** Nid yw'n cynnwys rhywun sy'n rhoi ei docyn i rywun arall yn anffurfiol am ddim neu am dâl hyd at y pris ar wyneb y tocyn, oni fydd hynny'n digwydd mewn man cyhoeddus.

**12.** Mae cymal 9(3)(d) hefyd yn ei gwneud yn drosedd hysbysebu bod tocyn ar gael i'w brynu. Fodd bynnag, yn rhinwedd is-adran (4), nid yw hyn yn berthnasol pan fydd person yn hysbysebu bod tocyn Gemau ar gael i'w brynu gan rywun arall ac nad oedd y person sy'n hysbysebu'r tocyn yn gwybod, neu na ellid disgwyl iddo wybod, bod y tocyn yn cael ei dowtio.

**13.** Mae Atodlen 1(2) yn darparu eithriadau rhag cyflawni'r drosedd, yn ddarostyngedig i amodau, ar gyfer darparwyr gwasanaeth sy'n gweithredu fel hwyluswyr yn unig, sy'n cadw gwybodaeth, neu sy'n storio gwybodaeth heb wybod fod darparu'r wybodaeth honno'n drosedd o dan gymal 9. Unwaith y byddant yn dod i wybod bod eu gwasanaethau'n cael eu defnyddio ar gyfer towtio tocynnau, fodd bynnag, rhaid i'r darparwr gwasanaeth atal y gwasanaethau hynny mewn cyn lleied o amser ag sy'n rhesymol.

**14.** Mae paragraff 11 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam ei bod yn briodol cynnwys darpariaeth yn y Bil ar gyfer Cymru:[7]

> "Mae'r Bil yn creu trosedd dros dro yn gysylltiedig â thowtio tocynnau Gemau. Mae felly'n briodol i ddelio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan mai dyma'r dull mwyaf ymarferol a chymesur o ddeddfu fel bod modd i'r darpariaethau fod yn berthnasol yng Nghymru Mae hefyd yn ymarferol am resymau amser a chydlyniaeth. Bydd cyflwyno'r drosedd o dowtio tocynnau yn y Bil hwn gan y DU yn galluogi iddo gael ei weithredu ledled Cymru ar yr un pryd â Lloegr."

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham, Mehefin 2019

# Ystyriaeth y Pwyllgor

**15.** Gwnaethom ystyried Memorandwm Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yn ein cyfarfodydd ar 15 Gorffennaf a 16 Medi 2019.[8]

## Ein barn ni

**16.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 9 o'r Bil ac Atodlen 1 i'r Bil (fel y'i cyflwynwyd). Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam y mae'n briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil yn ei barn hi.

**17.** Nodwn ymhellach asesiad Llywodraeth y DU y byddai cymalau 12 i 28 o'r Bil ac Atodlen 2 i'r Bil (fel y'i cyflwynwyd) hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ein barn ni, nid oes angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn a'r Atodlen hon.

[8] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 15 Gorffennaf 2019 a 16 Medi 2019